Rheolaeth

Meddyliwch Amdani

Gorffennaf 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Saib i'r sêr

Dros yr wythnosau diweddar roedd dau glwb pêl droed yr uwch gynghrair yn gwylio yn ddiymadferth wrth i chwaraewyr blaengar sy'n gwella wedi anaf ei mentro hi tra'n chwarae dros Loegr yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd. Bellach mae un allan o'r gêm am chwe mis.

Ydych chi'n ymwybodol o fentro corfforol eich staff allweddol y tu allan i'r swyddfa? Allwch chi reoli'r mentro yma neu sut fyddech chi'n ymdopi pe byddech chi'n colli unigolyn allweddol oherwydd anaf neu waeth?

Mesur gwerth go iawn?

Yn ôl yr hyn ddywedodd yr awdur busnes rhyngwladol Charles Handy mewn cyfweliad yng nghylchgrawn Director, dylai cwmnïau geisio rhoi mwy o ryddid i weithredu yn eu swyddi i'w staff, a mesur deilliannau yn hytrach na phrosesau.

Fyddai hyn yn llwyddo yn eich busnes chi? Allech chi ganiatáu y fath hyblygrwydd heb greu anrhefn neu yn hytrach allech chi wahaniaethu a dethol yn unig y rhai rydych chi'n credu y gallan nhw ymateb yn bositif i weithredu fel hyn?

Cydbwyso ieuenctid ac henaint?

Mae Prydain bellach ar y blaen i Ewrop o ran cadw gweithwyr h n. Pe bydden ni'n dilyn tuedd UDA, byddai un ym mhob wyth o'r rhai dros 65 oed yn rhan o'r gweithlu.

Ydy hyn yn broblem i chi? Pe byddech chi'n caniatáu rhegi, fyddech chi'n gallu rheoli pryd, lle a chyda phwy mae'n dderbyniol? Pe byddech chi'n ei wahardd yn gyfan gwbl, allech chi ei ddiffinio'n ddigonol i orfodi'r gwaharddiad? Ydy'n well osgoi y fath dir peryglus?

Cysylltu a chreu

Dywedodd y diweddar William Plomer, nofelydd a golygydd llenyddol o Dde Affrica, un tro mai "y grym i gysylltu yr hyn sydd i bob golwg heb ei gysylltu yw creadigedd".

Ydych chi'n credu bod dawn greadigol yn bwysig neu hyd yn oed yn hanfodol ar gyfer rheoli ac arwain? Ai dawn ydy hyn mewn gwirionedd ynteu sgil y gall y rhan fwyaf o bobl ei dysgu? Os mai sgil ydyw, sut allwch chi ei meithrin ynoch chi'ch hun ac yn eich tîm?

Lle mae'r awyr yn goch

Yn ôl arolwg diweddar o fwy na 300 o reolwyr a chyfarwyddwyr h n yn y DU, mae 36% yn derbyn rhegi fel rhan o ddiwylliant y gweithle.

Ydy hyn yn broblem i chi? Pe byddech chi'n caniatáu rhegi, fyddech chi'n gallu rheoli pryd, lle a chyda phwy mae'n dderbyniol? Pe byddech chi'n ei wahardd yn gyfan gwbl, allech chi ei ddiffinio'n ddigonol i orfodi'r gwaharddiad? Ydy'n well osgoi y fath dir peryglus?

Gwefannau Rheolaeth

Un o'r dogfennau pwysicaf o gwmpas ar hyn o bryd yw Adroddiad Interim Arolwg Leitch o Sgiliau "Skills in the UK: The long-term challenge" (www.hm-treasury.gov.uk/leitch). Dywed yr Arglwydd Leitch yn y Crynodeb Gweithredol "Nid yw sgiliau ein cenedl o'r radd flaenaf. Mae perygl y bydd hyn yn tanseilio ffyniant tymor hir y DU. Mae cynhyrchiant yn is o hyd na chynhyrchiant ein prif gystadleuwyr rhyngwladol. Rhaid gwneud llawer mwy i leihau anghyfartaleddau cymdeithasol. Pe byddem yn gwella ein lefelau sgiliau fe fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r holl broblemau yma".

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth